

# 1. Safonau

Blaenoriaethau / Priorities	Cynllun Gweithredu / Actions	Targed Perfformiad / Allbwn Outputs and success criteria	Swyddog Cyfrifol/ Responsible	Dyddiad targed / Target Date	Ffynh. gyllid (cyfeirnod) / Finance Res. (ref)	Monitro Ch 2 - Cynllun Gweithredu Quarter 2 Monitoring - Action Plan	RAG Ch2 / Q2	Monitro Ch2- Targed Perfformiad / Allbwn Quarter 2 Monitoring - Outputs and success criteria	RAG Ch2 / Q2	Tracio proffil gwariant Ch2 / Tracking expenditure profile Q2
<b>SAFONAU - Sicrhau y cyrhaeddir y safonau uchaf ymhob cyfnod allweddol a bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd a rhifedd o un cyfnod allweddol i'r llall. Bod pob dysgwr yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'w gallu a'u potensial ac yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog erbyn eu bod yn un ar bymtheg oed.</b>	Cyfnod Sylfaen - gwella perfformiad y cyfnod sylfaen..	Gwelliannau mewn safonau ar ddiwedd y CS ar draws y rhanbarth	Marc B Hughes	Mehefin 2018	EIG13 (Cyfnod Sylfaen Rhaglen gefnogi)	Mae canlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen eleni yn dangos gostyngiad cenedlaethol o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol. Y prif reswm am hyn yw bod deilliannau newydd o'r Fframwaith Asesu CS wedi cael eu defnyddio mewn leithoedd a Mathemateg. Mae llawer o athrawon o dan yr argraff bod disgybiadau uwch i gyflawni Deiliant ac mae hwn yn un ffactor sydd wedi arwain at lai o ddisgyblion yn cyflawni Deiliant 5. Mae bron pob un o'r ysgolion a gefnogir yn mynd i'r afael â chamau a nodir gan YCG y CS. Mae mwyafrif o'r ysgolion sydd â pherfformiad wedi gostwng a'r perfformiad yn sylweddol na'r targed wedi'u hadnabod ac yn derbyn cymorth gan yr YCG CS.	Ar drac / On track	Mae'r gostyngiad cenedlaethol hwn yn y canlyniadau yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau'r rhanbarth. Mae GwE wedi rhagdybio hyn ac wedi canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau Meithrin a Derby, a fydd yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cyrraedd cyflawni deilliannau uwch erbyn i'r disgyblion gyrraedd diwedd y Cyfnod Allweddol. Er bod perfformiad wedi gostwng yn rhanbarthol, mae'r gostyngiad yn is na'r gostyngiad cenedlaethol ar ddeiliant disgywliedig (O5+) ac eithrio ILIC(C). Mewn perthynas â'r deiliant uwch na'r disgwyl (O6+), mae'r gostyngiad rhanbarthol yn sylweddol is na'r gostyngiad cenedlaethol ar draws pob ardal. Yn gyffredinol, mae perfformiad deiliant 6+ yn parhau i fod yn gryf. Mae ysgolion wedi ymateb yn dda i'r amrywiaeth o weithdai hyfforddi cyfnod sylfaen a chyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer UDRh, athrawon a staff cymorth. Mae'r ffaith bod ysgolion wedi codi lefel yr her i ddiwallu gofynion newydd deiliant 6 yn dystiolaeth o hyn.	Rhannol ar drac / Partly on track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
	Cynnal safonau da Cyfnod Allweddol 2 gan wella'r perfformiad yng Nghonwy.	Cynnal safonau da yn yr Awdurdodau lleol eraill.  Cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni yn y DPC.	Marc B Hughes	Mehefin 2018	M5 (Cynllun Llefared Cynradd)	Mae canlyniadau CA2 y rhanbarth yn gadarn. Mae perfformiad eleni ar y lefel ddisgywliedig yn cyfateb i'r canlyniadau a gafwyd y llynedd i raddau helaeth ac yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y DPC. Yr unig eithriad yw bod perfformiad y Gymraeg ar y lefel ddisgywliedig ychydig yn is. Mae'n bosibl fod hyn oherwydd bod mwy o ddysgwyr wedi cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg fel iaith gyntaf nag erioed o'r blaen. Fodd bynnag, mae canran y dysgwyr sy'n cyrraedd y lefel ddisgywliedig mewn Cymraeg ail iaith wedi cynyddu eto am y bumed flwyddyn. Ar y lefelau uwch, mae perfformiad yn parhau i fod yn gadarn ym mhob pwn. Cafwyd gwelliant nodedig yng nghanlyniadau Cymraeg ail iaith. Gostyngodd yr amrywiaeth rhwng bechgyn a merched eleni ac mae bellach yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae dysgwyr PYD wedi cynnal y canlyniadau a gafwyd y llynedd ar wahân i'r Gymraeg lle y cafwyd llai o ddisgyblion PYD yn llwyddo i gyrraedd y lefelau disgywliedig. Fodd bynnag, cafodd y nifer uchaf erioed o ddisgyblion PYD eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. O gymharu data diwedd Cyfnod Allweddol 2 eleni â data diwedd Cyfnod Sylfaen 2014, mae disgyblion cyfatebol y rhanbarth, ar gyfartaledd, wedi gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg.	Ar drac / On track	Mae perfformiad Cyfnod Allweddol 2 yn parhau i fod yn gryf ar y lefelau disgywliedig a'r lefelau uwch na'r disgwyl. • Mae canran uwch o ddysgwyr a aseswyd drwy gyfrwng y Gymraeg fel ail iaith wedi cyflawni ar y lefelau disgywliedig a'r lefelau uwch na'r disgwyl. • Mae ysgolion wedi ymateb yn dda i'r rhaglenni hyfforddi amrywiol a ddarparwyd ar Lythrennedd, Rhifedd ac Addysgu. Mae'r ffaith bod perfformiad cryf a chyson yn yr holl bynciau craidd yn dystiolaeth o hyn. • Mae cohort CA2 eleni wedi gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg yn ystod eu cyfnod yn CA2.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track

Gwella safonau yng Nghyfnod Allweddol 4: • Gwella safonau yn y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 4.	Gwelliant ym mherfformiad dangosydd L2+ o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.  Bydd canran yr ysgolion sy'n perfformio'n uwch na'r canolrif mewn meincnodau PYD ar gyfer L2+ yn codi o 5%.  55% o ysgolion yn perfformio yn unol â neu'n uwch na'r deiliant ar gyfer L2+.  Cynnydd yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni 5A*-A mewn TGAU, neu gyferweth, o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.  Mae gan bob ysgol gynlluniau cefnogaeth da gyda ffocws ar godi safonau yng Nghyfnod Allweddol 4.  Gwelliant ym mhroffil canlyniadau arolygiadau ysgolion uwchradd.	Elfyn V Jones	Aug-18	Core	Yn dilyn y newidiadau yn 2016-17, mae anghysondeb sylweddol yn parhau i fod mewn perthynas â deilliannau TGAU. Mae'r newidiadau sylweddol i batrwm a nifer y disgyblion a safodd arholiadau yn ystod Haf 2018 wedi cael effaith ar ganlyniadau, fel y gwelir yn y ffaith bod cyfran y graddau A+ i C ar draws yr holl bynciau yng Nghymru wedi gostwng 1.2yp i 61.6%.  Mae newidiadau sylweddol wedi bod i ffiniau graddau ers Haf 2017 a mis Tachwedd 2017 o'u cymharu â Haf 2018, yn arbennig ar radd C mewn Saesneg a Mathemateg. Mae hyn wedi'i gwneud yn anodd i ysgolion sicrhau bod y rhagamcanion a'r targedau cywir yn cael eu gosod. Mae dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu bod data ysgolion wedi cael ei ddylanwadu yn sylweddol gan benderfyniadau cofrestrïadau. ae'n anodd dod i unrhyw gasgliad arwyddocaol ar y pwynt hwn o ganlyniad i'r newidiadau mawr i'r cwricwlwm a'r ffiniau graddau, a'r diffyg cymaryddion cenedlaethol. Yr L2+ a'r pynciau craidd yw'r dangosyddion sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y newidiadau uchod.	Rhannol ar drac / Partly on track	• Yn y Gymraeg, cynnydd o + 0.5% ar berfformiad 2017 - perfformiad 2018 yn 71.1%. Mae mwyaf yr ysgolion yn y rhanbarth wedi croesi'r trothwy o 70% ar y dangosydd lefel 2. • Yn Saesneg, mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion a gafodd gymorth dwys oddi wrth tim Saesneg GwE wedi gweld cynnydd yn eu perfformiad ers y llymdd. Mae DPP o ansawdd uchel a gyflwynwyd eleni wedi cael ei ganmol gan benaethiaid adrannau a phenaethiaid. Mae penaethiaid adrannau wedi cael cyfoeth o hyfforddiant o ansawdd uchel i'w cefnogi yn eu rôl. • Mae perfformiad Mathemateg mewn 30 ysgol [55.5%] wedi gwella ers 2017 gyda 7 ysgol [12.9%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran. Mae perfformiad Mathemateg-Rhifedd 31 ysgol [57.4%] wedi gwella ers 2017 gyda 7 ysgol [12.9%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran. Mae 32 [59.2%] o ysgolion wedi gweld gwelliant yn eu perfformiad ar gyfer y radd orau o'i gymharu â chanlyniadau 2017, gyda 6 ysgol [1.1%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran. • Llwyddodd 62.8% o ddisgyblion yn y rhanbarth i ennill o leiaf un TGAU mewn gwyddoniaeth yn L2. Mae'r cymorth dan dim Gwyddoniaeth GwE wedi sicrhau cynnydd o 11.8% yn y perfformiad o ddiwedd blwyddyn 10 pan dim ond 51% o ddisgyblion oedd ar y trywydd cywir i gyflawni o leiaf un L2 TGAU mewn gwyddoniaeth. Mae pob ysgol (54) wedi gweld gwelliannau yn dilyn canlyniadau diwedd blwyddyn 10, a 12 ysgol (22%) wedi gweld cynnydd o 20% neu fwy yn eu canlyniadau.	Rhannol ar drac / Partly on track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
Gwella perfformiad dysgwyr PYD, yn enwedig mewn Iaith Saesneg.	Bydd y bwch rhwng ein dysgwyr PYD a dim PYD hefyd yn lleihau, o 5% o leiaf, mewn L2+ a'r DCS.	Elfyn V Jones / Marc B Hughes	Awst 2018	Craidd / EIG13 (Cyfnod Sylfaen Rhaglen Gefnogi)	CA4 - perfformiad disgyblion PYD [o 760 o ddisgyblion, mae 163 ohonynt yn ddisgyblion AAA] wedi gwella i 27.6% [+ 0.7%] yn y prif ddangosydd [+ 0.8% yn genedlaethol] a'r bwch gyda disgyblion dim PYD wedi'i gau ymhellach o 2.3% i 30.2% [32.3% yn genedlaethol].	Rhannol ar drac / Partly on track	CA4 - o'r 597 disgyblion PYD nad oeddent yn AAA, roedd 33.0% yn llwyddiannus yn y dangosydd L2+ [cynnydd o 1.0% o 2017]. Perfformiad L2 disgyblion PYD hefyd wedi gwella yn y sgor capio 9, mathemateg a mathemateg rhifedd, tra gostyngodd eu perfformiad yn Saesneg 1.0% i 35.4%. CS – nid yw cymariaethau o ddeilliannau'r cyfnod sylfaen â'r flwyddyn flaenorol yn cael eu mesur ar sail gymaradwy. 2018 perfformiad -83.2%.	Rhannol ar drac / Partly on track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
Gwella perfformiad mewn Iaith Saesneg	Gwelliant yng nghanlyniadau Iaith Saesneg CA4 o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.	Gaynor Murphy	Awst 2018	EIG15	14 o ysgolion wedi gweld cynnydd yn eu perfformiad ers 2017 . O'r 7 ysgol yn y categori cymorth coch, 5 wedi gweld cynnydd yn eu perfformiad ers 2017. Cymorth dwys i nifer fach o ysgolion wedi cael effaith gadarnhaol o ystyried yr hinsawdd sydd ohoni. Craffu ar ddata a rhoi cymorth er mwyn ymateb i anghenion ee: addysgu llafaredd. Aethpwyd i'r afael â gwendidau arholiadau ym mis Hydref a darparwyd hyfforddiant safoni i bob Pennaeth Adran. System tracio rhanbarthol wedi'i datblygu ac yn cael ei defnyddio gan y rhan fwyaf o'r ysgolion.	Rhannol ar drac / Partly on track	Mae perfformiad TGAU Saesneg wedi gostwng yn rhanbarthol eleni o 61.6 (2017) i 56.2% mewn perthynas â graddau A* i C. Mae problemau gyda'r newidiadau i ffiniau graddau CBAC a mynediad at gyfleoedd mynediad cynnar wedi effeithio ar berfformiad Saesneg Iaith ar draws y rhanbarth. Mae angen ymchwilio ymhellach i hyn. Mae perfformiad yn parhau i fod yn broblem mewn perthynas ag adrannau ysgrifennu'r ddau bapur ar hyd a lled Cymru. Mae sgôr gyfartalog yr adrannau ysgrifennu oddeutu hanner y marciau am ansawdd a chywirdeb ysgrifennu'r disgyblion.	Ddim ar drac / Off track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
Gwella perfformiad mewn mathemateg a rhifedd	Gwelliant yn Rhifedd a mathemateg CA4 o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol. .	Dafydd Gwyn / Delyth Ellis	Awst 2018	EIG15	Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau ar gyfer y radd orau ar draws y siroedd wedi aros yn gyson. Mae'r cyrhaeddiad ar gyfer Rhifedd yn gryfach yn gyffredinol yn ein hysgolion ar draws y rhanbarth. Darlun positif a geir o'r data sy'n bodoli'n gyffredinol, ond mae rhai ysgolion yn peri pryder – yn enwedig lle y mae'r gwahaniaeth rhwng Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd yn sylweddol, neu lle y mae gwahaniaeth sylweddol mewn perfformiad o gymharu â chanlyniadau 2017.	Ar drac / On track	• Mae perfformiad Mathemateg 30 ysgol [55.5%] wedi gwella ers 2017 gyda 7 ysgol [12.9%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran. • Mae perfformiad Mathemateg-Rhifedd 31 ysgol [57.4%] wedi gwella ers 2017 gyda 7 ysgol [12.9%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran. • Mae 32 [59.2%] o ysgolion wedi gweld gwelliant yn eu perfformiad ar gyfer y radd orau o'i gymharu â chanlyniadau 2017, gyda 6 ysgol [1.1%] yn gweld cynnydd sylweddol yn eu pwyntiau canran. • Ymchwilio i adrannau sy'n gweithio'n effeithiol er mwyn rhannu'r arferion gorau ar draws y rhanbarth.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
Gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr: • PYD • Bechgyn • MATH	Gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr (PYD, Bechgyn, MATH) o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol - CS a CA4	Elfyn V Jones / Marc B Hughes	Awst 2018	M35 (MAT)	CA4 - perfformiad disgyblion PYD [o 760 o ddisgyblion, mae 163 ohonynt yn ddisgyblion AAA] wedi gwella i 27.6% [+ 0.7%] yn y prif ddangosydd [+ 0.8% yn genedlaethol] a'r bwch gyda disgyblion dim PYD wedi'i gau 2.3% i 30.2% [32.3% yn genedlaethol]. Yn Saesneg, gwelwyd y cynnydd mwyaf sylweddol ar Lefel 6+ o 2.7%, ac mae'n adlewyrchu'r ffocws rhanbarthol ar herio dysgwyr mwy abl a thalentog yn CA3..	Rhannol ar drac / Partly on track	CA4 - o'r 597 disgyblion PYD, roedd 33.0% yn llwyddiannus yn y dangosydd L2+ [cynnydd o 1.0% o 2017]. Perfformiad L2 disgyblion PYD hefyd wedi gwella yn y sgor capio 9, mathemateg a mathemateg rhifedd, tra gostyngodd eu perfformiad yn Saesneg 1.0% i 35.4%. Mae gwella perfformiad disgyblion PYD a grwpiau o ddisgyblion mewn ALL unigol ac ysgolion yn parhau i fod yn flaenoriaeth.	Rhannol ar drac / Partly on track	Gwariant ar drac / Expenditure on track

2. CWRICWLWM AC ASESU:

AG1 - Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel

AG4 - Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella

Blaenoriaethau / Priorities	Cynllun Gweithredu / Actions	Targed Perfformiad / Allbwn Outputs and success criteria	Swyddog Cyfrifol/ Responsible	Dyddiad targed / Target Date	Ffynh. gyllid (cyfeirnod) / Finance Res. (ref)	Monitro Ch 2 - Cynllun Gweithredu Quarter 2 Monitoring - Action Plan	RAG Ch2 / Q2	Monitro Ch2- Targed Perfformiad / Allbwn Quarter 2 Monitoring - Outputs and success criteria	RAG Ch2 / Q2	Tracio proffil gwariant Ch2 / Tracking expenditure profile Q2
CWRICWLWM AC ASESU - Sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial. Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn.	Gwella'r ddarpariaeth, y cynllunio cwricwlwm a'r asesu yn y Cyfnod Sylfaen.	Mae gan bob ysgol gynradd weithdrefnau cwricwlwm ac asesu priodol ar waith yn y Cyfnod Sylfaen.	Marc B Hughes	Tymor yr Haf 2018	EIG13 (Cyfnod Sylfaen Rhaglen gefnogi)	Gweithdai hyfforddi wedi'u cyflwyno i UDRh, athrawon, cymorthyddoion, 'Rhesymu rhifyddol yn y dosbarth meithrin/derbyn, Asesu Gwaelodlin, hyfforddiant i athrawon sy'n newydd i'r CS a 'Defnydd effeithiol o TG/FCD i ddatblygu sgiliau llafaredd ac ysgrifennu creadigol'. Mae'r gweithdai wedi canolbwyntio ar ddatblygu medrau allweddol ym mhob maes dysgu, y darpariaeth mewn addysgeg CS effeithiol, ac asesu disgyblion trwy arsylwi a data bach. Cafwyd presenoldeb da iawn yn yr holl weithdai ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol. Mae pecynnau adnoddau wedi cael eu huwchlwytho ar G6 a HWB. Bydd YCG yn monitro effaith ar ddarpariaeth a chanlyniadau drwy ymweliadau ysgol.	Ar drac / On track	Bydd YCG yn trafod cywirdeb yr asesiad gwaelodlin a chynnydd disgyblion unigol o fewn y CS yn ystod tymor yr Hydref.	Rhannol ar drac / Partly on track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
	Gwella cynllunio cwricwlwm yn yr ysgolion uwchradd er sicrhau gwell deilliannau ar gyfer pob dysgwr.	Mae gan bob ysgol uwchradd gwricwlwm priodol ar waith yng Ngynod Allweddol 4 i wella perfformiad yn y dangosyddion perfformiad allweddol.	Paul Mathews-Jones	Tymor yr Haf 2019	M17 (Ehangu effaith a dyfnder gweithio ar y cyd)	Bydd profion PISA yn cychwyn yn ystod yr wythnosau nesaf, ac mae pob ysgol yn y sampl wedi cael ymweliadau cymorth. Mae grwpiau cwricwlwm yn hwyluso hunan-werthuso, ac mae ysgolion yn cwblhau eu AHA.	Rhannol ar drac / Partly on track	Bydd angen i'r YCG fonitro cadernid a chywirdeb arfarniadau, o ganlyniad ni ellir gwerthuso'r camau gweithredu. Adroddodd yr ysgolion sydd yn y sampl fod y gynhadledd yn un hynod effeithiol.	Rhannol ar drac / Partly on track	Tanwariant rhwng 10-15% / Underspend between 10-15%
	Gwella ansawdd asesu, tracio a rhaglenni ymyriad yn yr ysgolion uwchradd.	Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio systemau tracio yn effeithiol ac yn amserol i gynllunio ymyriad effeithiol fel bod 90% o ysgolion o fewn 5% i'w targedau ar gyfer L2+, a bod 60% o fewn 2% i'w targedau.  Yr un ysgol i'w barnu yn anfodhaol ym Meysydd Arolygu 3 a 4 yn ystod arolygiad ESTYN.	Paul Mathews-Jones	Medi 2018	Craidd / EIG5 (Blaenoriaethau Rhanbarthol)	Mae ymchwil academaidd wedi cael ei gomisiynu gan Brifysgol Warwick, Prifysgol Bangor a Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru i greu offeryn dadansoddi aml-lefel. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cais am gymorth ac mae adolygiad o system ddadansoddi Llywodraeth yr Alban wedi'i gynnal ym mis Gorffennaf 2018 ar ymweliad i Gaeredin. Mae arfarniad o'r ymweliad wedi'i gyflwyno i'r UDA. Fframwaith prosiect wedi'i gytuno a protocol rhannu data wedi ei drafod a'i sefydlu.	Ar drac / On track		Ar y gweill / Pending	Gwariant ar drac / Expenditure on track
Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer Safon A.	Gwelliant yng nghanlyniadau Safon A ac UG, yn unol â thargedau ac i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn dangosyddion allweddol.	Martyn Froggett	Ebrill 2019	M30 (Lefel A)	Mae'r model ar gyfer Cyfnod Allweddol 5 yn amrywio o fewn awdurdodau ac ar draws y rhanbarth. Rhoddir y ddarpariaeth gan naill ai ysgolion unigol, colegau 6ed dosbarth, colegau addysg bellach neu ysgolion (a cholegau) yn cydweithio o fewn y consortiwm. Bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau A2 yn y rhanbarth yn 2018 o 434 ers 2017 (4563 i gyd), sy'n adlewyrchu poblogaeth llai mewn ysgolion. Mae'r data nas wiriwyd yn awgrymu bod perfformiad rhanbarthol lefel A yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (data ysgolion yn unig).	Rhannol ar drac / Partly on track	Mae'r gwaith craffu cychwynnol ar ganlyniadau (CBAC yn unig) yn awgrymu'n fras: • cynnydd yn A2 ond nid mor fawr â'r cynnydd ar draws Cymru yn gyffredinol - rydym ar y blaen yn rhanbarthol o ran Cymru o ran A *-E ond y tu ôl ar fesurau eraill (A *- C, A *- A). Ar lefel A2, mae'r bwch rhwng ysgolion GwE a gweddill Cymru yn llai nag yr oedd yn 2017. • mae % y disgyblion a gyflawnodd dair gradd A */A wedi cynyddu ar draws y rhanbarth ond nid gymaint â'r cynnydd cenedlaethol. • Mae % y disgyblion sy'n cyflawni tri gradd A *-C wedi gwella ar draws y rhanbarth. • Nid yw data ar berfformiad y Tystysgrif Her Sgiliau ar gael eto. • Bydd gwybodaeth drwy'r mesurau perfformiad ôl-16 newydd, gan gynnwys data gwerth ychwanegol ar gyfer pob ysgol, yn cael ei chyhoeddi'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae gwybodaeth gwerth ychwanegol consortiwm, sy'n deillio o ddata nas dilyswyd a gyflwynir i ALPs, yn awgrymu cynnydd calonogol ar draws y rhanbarth. • ar lefel UG cynyddodd canlyniadau ar bob ffin gradd (A*/A, A *-B, A *-C a A *-E) o gymharu â 2017. Er bod y perfformiad yn is na Chymru ar y cyfan, ar bob ffin uwchlaw A *- C, roedd cyfradd y cynnydd ar draws y rhanbarth yn uwch na'r gyfradd ledled Cymru yn ei chyfanrwydd (graddau A */A wedi codi 2.6% yn erbyn cynnydd cenedlaethol o 1.3%, er enghraifft).	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track	

Cyflawni Cwricwlwm i Gymru - codi ymwybyddiaeth o'r Pedwar Diben o fewn CiG a datblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o ddiwygio'r cwricwlwm.	Mae pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.  Cwricwlwm effeithiol seiliedig ar sgiliau ar waith mewn 85% o ysgolion, o'r gwaelodlin 81% presennol.	Ruth Thackery	Parhaus	M22 (Grant Arloesi)	Mae'r Tim CiG yn parhau i gyd-weithio a chefnogi gwaith yr ysgolion i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'r dysgu proffesiynol a fydd yn dilyn o ganlyniad. Rhoddir diweddariadau cyson ar ddiwygiadau'r cwricwlwm i bob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant, er mwyn iddynt eu rhannu ymhellach gydag ysgolion. Mae blaenoriaethau a chymau gweithredu er mwyn codi safonau yn cael eu nodi mewn cynlluniau Cwricwlwm i Gymru ble'n briodol. Bydd aelodau'r tim Cynradd, Uwchradd a Cwricwlwm i Gymru yn cydweithio, ble'n briodol, i ddiwallu'r blaenoriaethau hyn.  Mae arweinwyr clwstrwr wedi dechrau ar eu gwaith ac maent mewn cyswllt â'r tim CiG o ran cynllunio ac ennyn diddordeb clystyrau. Mae'r tim CiG yn monitro ac yn cefnogi clystyrau wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mae pob hwylusydd clwstrwr wedi cael hyfforddiant ar ddatblygiadau diweddar i'w rannu â phob ysgol yn y clwstrwr.	Ar drac / On track	Mae tim CiG GwE hefyd yn gweithio ar y cyd ag Agile Change ac ERW i ddatblygu pecyn cymorth Rheoli Newid ar gyfer pob YCG a phob ysgol. Mae rhai penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro wedi cael hyfforddiant ar Reoli Newid fel rhan o'r hyfforddiant clwstrwr. Bydd cyfle i bawb gael hyfforddiant drwy gyfrwng y pecyn cymorth, Gweminar a hyfforddiant wyneb yn wyneb.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
--	--	---------------	---------	---------------------	--	--------------------	---	--------------------	---

### 3. ARWEINYDDIAETH: AG2 - Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau

Blaenoriaethau / Priorities	Cynllun Gweithredu / Actions	Targed Perfformiad / Allbwn Outputs and success criteria	Swyddog Cyfrifol/ Responsible	Dyddiad targed / Target Date	Ffynh. gyllid (cyfeirnod) / Finance Res. (ref)	Monitro Ch 2 - Cynllun Gweithredu Quarter 2 Monitoring - Action Plan	RAG Ch2 / Q2	Monitro Ch2- Targed Perfformiad / Allbwn Quarter 2 Monitoring - Outputs and success criteria	RAG Ch2 / Q2	Tracio proffil gwariant Ch2 / Tracking expenditure profile Q2
<b>ARWEINYDDIAETH - sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddsbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.</b>	Datblygu a gwella ymhellach ansawdd uwch arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth.	Mae gan 85% o Uwch Dimau Arwain brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well.  Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion a osodir mewn Categoriâu Statudol Estyn.  Dim ysgol i'w rhoi mewn Categori Statudol Estyn yn annisgwyl. Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion mewn Adolygu gan Estyn.  Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion sy'n cael gradd D yng nghanam 2 y broses Gategoreiddio.  Cynnydd o 25% yn nifer yr ysgolion uwchradd a chynradd sy'n cael gradd A yng nghanam 2 y broses Gategoreiddio.	Pam McClean / David Edwards	Parhaus	M31 / M32 (Arweinyddiaeth Rhwydweithiau Proffesiynol a Phenaethiaid Newydd)	Mae GwE yn darparu ystod o raglenni, o rai ar gyfer darpar uwch arweinwyr i rai ar gyfer penaethiaid profiadol, yn unol â'r Llwybr Datblygu Gyrfa Cenedlaethol. Mae'r rhaglenni datblygu yn hybu cydweithio ysgol i ysgol, gydag ymarferwyr effeithiol o ysgolion yn cyd-gyflwyno sesiynau gyda staff GwE. Mae hyn yn datblygu ymhellach y syniad o ddatblygu system sy'n hunan wella ar draws gogledd Cymru. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr arweiniol o bob ALL yn rhanbarth GwE er mwyn sefydlu pa ddarpariaeth a gynigir gan GwE a pha ddarpariaeth a gynigir gan bob ALL ar gyfer penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro ym mhob awdurdod. Mae'r awdurdodau lleol wedi darparu manylion i GwE am y penaethiaid sydd newydd eu penodi a phenaethiaid dros dro. Mae cronfa ddata ganolog wedi cael ei choladu o'r penaethiaid sydd newydd eu penodi ac sydd mewn gofal. Erbyn canol mis Hydref, roedd anogwr wedi'i neilltuo ar gyfer pob pennaeth newydd a phennaethiaid dros dro. Bydd rhaglen genedlaethol yn dechrau ym mis Tachwedd, gyda chynhadledd genedlaethol yn Abertawe. Rhoddwyd gwybod am sesiynau gwybodaeth CPCP i ysgolion ym mis Gorffennaf 2018. Cafodd y trefniadau ar gyfer gwneud cais am CPCP eu hysbysebu ym mwletin GwE. Derbyniwyd 69 o geisiadau, gydag amrywiaeth o ymgeiswyr o staff cynradd, uwchradd, arbennig, unedau cyfeirio disgyblion a staff GwE .	Ar drac / On track	Ymgeiswyr addas wedi derbyn y wybodaeth berthnasol ac wedi ymgeisio erbyn y dyddiad cau.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
	Datblygu a gwella ymhellach ansawdd arweinyddiaeth ganol ar draws y rhanbarth.	Mae gan 85% o Dimau Arweinyddiaeth Ganol brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well.	Ian Kelly	Parhaus	M3 (Arweinyddiaeth)	Hysbysebwyd y RhDAG drwy Cynnig Proffesiynol GwE a'r Bwletin. YCG wedi annog eu hysgolion cyswllt i adnabod ymgeiswyr posibl ar gyfer y rhaglen. Bu Grŵp Arweinyddiaeth GwE yn monitro'r niferoedd, gan dargedu ysgolion uwchradd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg cynradd ble roedd nifer yr ymgeiswyr yn isel. Erbyn canol mis Medi roedd 61 o ymgeiswyr cyfrwng Saesneg a 23 o ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg. Cychwynnodd carfan 8 ar 8fed Hydref, gyda'r ail ddiwrnod ar y 9fed. Cychwynnodd carfan 9 ar 16 Hydref, gyda'r ail ddiwrnod ar 17eg. Diweddarodd tim arweinyddiaeth GwE y wybodaeth a anfonwyd at ymgeiswyr er mwyn sicrhau bod rôl fonitro'r YCG yn cael ei hamlygu.	Ar drac / On track	Rhy fuan i fesur effaith.	Ar y gweill / Pending	Gwariant ar drac / Expenditure on track

Cefnogi'r UDA i gyflawni Cwricwlwm Gymru yn effeithiol.	Pob ysgol yn y rhanbarth ar y llwybr iawn i gyflawni Cwricwlwm i Gymru.	Ruth Thackray	Parhaus	M22 (Grant Arloesi)	O fewn strategaeth Cwricwlwm i Gymru, mae cysylltiadau clir â'r timau Cynradd ac Uwchradd presennol. Rhoddir diweddariadau cyson ar ddiwygiadau'r cwricwlwm i bob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant, er mwyn iddynt eu rhannu ymhellach gydag ysgolion. Mae blaenoriaethau a chymau gweithredu er mwyn codi safonau yn cael eu nodi mewn cynlluniau Cwricwlwm i Gymru ble'n briodol. Bydd aelodau'r tim Cynradd, Uwchradd a Cwricwlwm i Gymru yn cydweithio, ble'n briodol, i ddiwallu'r blaenoriaethau hyn.	Ar drac / On track	Mae GwE yn parhau i gefnogi UDA, gyda'r Tim yn meddu ar ystod o brofiadau. Un o rolau allweddol y tim yw gweithio gydag a chefnogi'r holl ysgolion ar draws y rhanbarth i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'r dysgu proffesiynol a fydd yn dilyn o ganlyniad.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
Gwella ansawdd arweinyddiaeth adrannol mewn pynciau craidd yn yr ysgolion uwchradd. • Iaith Saesneg • Cymraeg • Mathemateg • Gwyddoniaeth	Mae gan 85% o adrannau pynciau craidd brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well.  Mae arweinwyr canol yn defnyddio systemau tracio yn effeithiol ac yn amserol i gynllunio ymyriad effeithiol fel bod 90% o ysgolion o fewn 5% i'w targedau a bod 60% o fewn 2% yn y pynciau craidd.	Gaynor Murphy Catrin Jones Dafydd Gwyn Nicola Jones	Parhaus	M12 (NNEST)	Mae pob PA pynciau craidd yn cael arweiniad a chefnogaeth ar agweddau allweddol, a hynny yn y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. Mae ymweiliadau ag ysgolion yn darparu cefnogaeth i arweinwyr. System dracio i'r pynciau craidd yn cael ei ddefnyddio i adnabod arweinwyr canol sydd angen cefnogaeth. Bydd angen mewnbwn gan YCG ysgolion unigol. Mae'r manylion ynglŷn â'r gefnogaeth ar gyfer pob adran yn y cynlluniau cefnogaeth unigol. Mae cynllun gweithredu a chynllun busnes clir yn ei le.	Rhannol ar drac / Partly on track	Rhy fuan i fesur effaith.	Ar y gweill / Pending	Gwariant ar drac / Expenditure on track
Datblygu Darpar Benaethiaid / Uwch Arweinwyr	Rhaglen ar gyfer Darpar Benaethiaid ar waith. 50 o unigolion wedi'u hadnabod ac wedi cwblhau'r rhaglen.  25% o'r unigolion sydd wedi cymryd rhan wedi ymgeisio am swyddi UDA neu wedi cael dyrchafiad erbyn diwedd y flwyddyn.  Arfarniad cadarnhaol gan ysgolion a chan arfarnwr allanol ar effaith y rhaglen ar unigolion.	Ian Kelly	Parhaus	M3 (Arweinyddiaeth)	Hysbysebwyd y RhDADB yn y Cynnig Proffesiynol a'r Bwletin. Gwahoddwyd arweinwyr canol profiadol i wneud cais. Cafwyd cyfanswm o 34 o ymgeiswyr cyfrwng Saesneg ar gyfer y rhaglen, a ddechreuodd ar 15eg Hydref. Cychwynnodd y garfan cyfrwng Cymraeg hefyd ar 15eg Hydref.	Ar drac / On track	Sesiwn gyntaf lwyddiannus.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track

#### 4. LLES

### AG3 - Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles

Blaenoriaethau / Priorities	Cynllun Gweithredu / Actions	Targed Perfformiad / Allbwn Outputs and success criteria	Swyddog Cyfrifol/ Responsible	Dyddiad targed / Target Date	Ffynh. gyllid (cyfeirnod) / Finance Res. (ref)	Monitro Ch 2 - Cynllun Gweithredu Quarter 2 Monitoring - Action Plan	RAG Ch2 / Q2	Monitro Ch2- Targed Perfformiad / Allbwn Quarter 2 Monitoring - Outputs and success criteria	RAG Ch2 / Q2	Tracio proffil gwariant Ch2 / Tracking expenditure profile Q2
<b>LLES - Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.</b>	Datblygu a gweithredu strategaeth gyffredin ar gyfer Lles ar draws y rhanbarth.	Gweithredu'r strategaeth ar draws y rhanbarth.  Dull cydweithrediadol ac effeithiol ar gyfer cyflawni agenda genedlaethol gyffredin gyda rolau a chyfrifoldebau clir i'r holl bartneriaethau.  Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol gyda'r holl asiantaethau allweddol sy'n cefnogi'r agenda i sicrhau effaith gadarnhaol ar bob dysgwr.  Ysgolion yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol.	Sharon Williams	Tachwedd - Rhagfyr 2018.	PMG / GDD	Trafodaethau pellach i'w cynnal gyda Bwrdd Rheoli GwE. Cynllun Gweithredu a Chynllun Busnes clir yn ei le.	Rhannol ar drac / Partly on track	Cyfarfodydd GDD unigol gydag ysgolion yn Wrecsam/Sir y Fflint i drafod cyflwyno'r strategaeth grant amddifadedd disgyblion a'r lefel o gymorth sydd ei hangen. Cynhaliwyd cyfarfodydd â'r YCG i drafod lefel cefnogaeth i ysgolion a chynllun gweithredu. Wedi dadansoddi'r canlyniadau TGAU crynodol cychwynnol ar gyfer 2018 ar draws y rhanbarth er mwyn adnabod ysgolion/ALI sydd angen cymorth ychwanegol. Ysgolion wedi eu hadnabod i ddatblygu astudiaethau achos o arfer dda. Prosiect peilot ymyrraeth llythrennedd yn cael ei gynnal gan dargedu 3 ysgol uwchradd yn Wrecsam ac yn gweithio gyda'r YCG Saesneg. YCG wedi casglu gwybodaeth o ran effaith y grant amddifadedd disgyblion a'r defnydd ohono ym mhob un o'r ysgolion. Gwybodaeth wedi ei gofnodi ar G6 gan ysgolion. Awdit wedi ei gwblhau i fonitro a yw ysgolion yn cyhoeddi gwariant a'u defnydd o'r grant amddifadedd disgyblion ar wefan ysgol/GwE. Mae cynllun gweithredu wedi'i gynhyrchu o ran y camau nesaf.	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track

5. ADDYSGU

AG1 - Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel

Blaenoriaethau / Priorities	Cynllun Gweithredu / Actions	Targed Perfformiad / Allbwn Outputs and success criteria	Swyddog Cyfrifol/ Responsible	Dyddiad targed / Target Date	Ffynh. gyllid (cyfeirnod) / Finance Res. (ref)	Monitro Ch 2 - Cynllun Gweithredu Quarter 2 Monitoring - Action Plan	RAG Ch2 / Q2	Monitro Ch2- Targed Perfformiad / Allbwn Quarter 2 Monitoring - Outputs and success criteria	RAG Ch2 / Q2	Tracio proffil gwariant Ch2 / Tracking expenditure profile Q2
ADDYSGU - Sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cydestun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.	Gwella a chryfhau rôl arweinwyr wrth arwain y dysgu a'r addysgu.	Mae gan bob UDA ac AC mewn ysgolion y sgiliau angenrheidiol a dealltwriaeth o addysgu da ac eithriadol er mwyn cynnig arweiniad a hyfforddiant yn eu hysgolion.  Mae addysgu effeithiol ar waith mewn 85% o ysgolion, o'r gwaelodlin 81% presennol.  Cyflawnir disgwyliadau Estyn, hynny yw, bod 85% neu fwy o wersi yn dda neu well, gan 85% o ysgolion ar draws y rhanbarth.  Cynnydd cyffredinol o 5% mewn barnau da neu well ar gyfer y dysgu a'r addysgu ym mhob ysgol a arolygir gan Estyn.	Stella Gruffydd / Bethan James	Tachwedd 2018	M40 (AagD)	Cynhaliwyd gweithdai rhanbarthol i hyfforddi arweinwyr ysgolion i ddefnyddio'r continwrm addysgu a dysgu yn effeithiol. 150 o ysgolion ar draws y rhanbarth yn cymryd rhan yn y gweithdai hyn.  Arweiniad a chefnogaeth wedi ei roi i bob pennaeth adran ar draws yr holl pynciau craidd ar arwain yr addysgu a'r dysgu o fewn rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. Trefnwyd hyfforddiant pellach ar gyfer mis Tachwedd.	Ar drac / On track	Rhy fuan i fesur effaith.	Ar y gweill / Pending	Gwariant ar drac / Expenditure on track
	Gwella ansawdd yr addysgu a'r profiadau i bob dysgwr.	Cymorth a hyfforddiant pwrpasol i ysgolion risg uchel lle mae materion allweddol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu (i'w gadarnhau).  Mae safonau addysgu yn yr ysgolion hynny sy'n rhan o Brosiect Asesu Ffurfiannol ac Addysgeg, dan arweiniad timau ymchwil weithredu Shirley Clarke mewn ysgolion, yn gyson dda neu well, gydag unigolion sy'n cymryd rhan ar Haen 1 yn arddangos arfer ragorol. Mae adroddiadau Estyn ar ysgolion sy'n cymryd rhan yn cadarnhau hyn.  Effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch.	Stella Gruffydd / Bethan James	Tachwedd 2018	M40 (AagD)	Mae cydweithio effeithiol ar y gweill rhwng y rhanbarth a'r ymarferydd addysg adnabyddus, Shirley Clarke. Mae 27 o ysgolion wedi ei dewis ar draws y rhanbarth i gydweithio fel timau ymchwil gweithredol dan arweiniad Shirley Clarke. Mae'r ysgolion Haen 1 wedi cwblhau eu gwaith yn llwyddiannus. Mae Diwrnod 2 gyda SC wedi digwydd ar Fehefin 14 a 15. Mae 201 o ysgolion Haen 2 wedi eu dewis drwy broses rymus. Mae gwybodaeth wedi ei gyfathrebu gydag ysgolion y 2 haen parthed digwyddiadau a dyddiadau Tymor yr Hydref. Ysgolion Haen 1 yn datblygu ymhellach arferion rhagorol. Diwrnod adolygu 2 wedi digwydd Hydref 11 a 12. Ymestyn i 2 ddiwrnod i'r ddau dim i gael mewnbwn tîm GiG. Tîm o YCG wedi ei sefydlu ac ar waith i gefnogi'r ysgolion wrth eu gwaith yn 2018-19. Unigolion o ysgolion Haen 1 yn gweithredu'n effeithiol fel arweinwyr dysgu yn eu hysgolion a thu hwnt.	Ar drac / On track	Haen 1 wedi eu paratoi ar gyfer eu rôl arweiniol yn 2018-19. Dyddiadau yn eu lle ar gyfer gweithgarwch y flwyddyn rhwng ysgolion Haen 1 a 2. Ysg Paratoadau yn eu lle ar gyfer y dyddiau arddangos( Showcase) Tachwedd 15 a 16.	Ar drac / On track	Gorwariant rhwng 10-15% / Overspend between 10-15%

6. Busnes

Blaenoriaethau / Priorities	Cynllun Gweithredu / Actions	Targed Perfformiad / Allbwn Outputs and success criteria	Swyddog Cyfrifol/ Responsible	Dyddiad targed / Target Date	Ffynh. gyllid (cyfeirnod) / Finance Res. (ref)	Monitro Ch 2 - Cynllun Gweithredu Quarter 2 Monitoring - Action Plan	RAG Ch2 / Q2	Monitro Ch2- Targed Perfformiad / Allbwn Quarter 2 Monitoring - Outputs and success criteria	RAG Ch2 / Q2	Tracio proffil gwariant Ch2 / Tracking expenditure profile Q2
-----------------------------	------------------------------	--	-------------------------------	------------------------------	--	--	--------------	--	--------------	---

<b>BUSNES - Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.</b>	<p>Ymgorffori'r G6 ar draws y rhanbarth a pharhau i ddatblygu defnydd effeithiol o'r system i hwyluso cydweithio a rhannu arferion llwyddiannus.</p>	<p>Gwybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac yn amserol a hynny'n gyson ar draws pob lefel o weithredu.</p> <p>Ystod ehangach o ddata a gwybodaeth fyw am gynnydd wrth law i Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, Swyddogion yr ALI ac ysgolion.</p>	Llyr G Jones	Mehefin 2018	M36 (G6)	<p>Darparwyd rhaglen effeithiol o sesiynau diweddarau i ddefnyddwyr GwE ac ysgolion yn rhyngor yr hydref 2018. Mae blaenoriaethau ar y cyd ar waith bellach i'r holl ysgolion. Cwblhawyd y gwaith o sicrhau bod y modiwl ADY Cymru ar gael i bob ysgol o fis Medi 2018. Mae grwp prosiect rhanddeiliaid a CDY wedi'i nodi. Rhyddhawyd y modiwl ADY i ysgolion ym mis Medi 2018. Bydd modiwl y Gymraeg ar gael o fis Ionawr 2019. Mae hysbysiadau system a dogfennau canllaw ar gael i bob defnyddiwr yn y system. Mae syrjeris ar hyd a lled y rhanbarth wedi cynnig cymorth a hyfforddiant i staff ysgolion a staff GwE. Canlyniad adborth gan fforymau megis grwpiau rhanddeiliaid cynradd ac uwchradd, yn ogystal â thimau defnyddwyr GwE, yw datblygiadau o fewn y system. Mae dros 22 astudiaeth achos newydd wedi'u nodi; wrthi'n sicrhau ansawdd. Os byddant yn llwyddiannus, byddant yn cael eu cyhoeddi ar gyfer sylw bob ysgol ym mis Tachwedd. Mae ambell un yn cynnwys tystiolaeth fideo.</p>	Ar drac / On track	<p>Mae angen gwreiddio'r system hon yn llawn er mwyn gallu mesur yr effaith ar reoli perfformiad gwasanaeth. Mae rhaglen o gyfathrebu cyson ar waith. Bydd grwp rhanddeiliaid G6 yn cyfarfod ym mis Tachwedd 2018. Bydd 22 yn rhagor o astudiaethau achos wedi cael SA erbyn mis Tachwedd.</p>	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
	<p>Cynnal arolwg iechyd sefydliadol</p>	<p>Anelu at berfformiad yn chwarterl uchaf y mynegai iechyd sefydliadol.</p>	Susan O Jones	Mawrth 2019	Craidd		Ar y gweill / Pending		Ar y gweill / Pending	
	<p>Sefydlu GwE fel Sefydliad sy'n Dysgu yn gweithio mewn partneriaeth efo LIC a OECD</p>	<p>Dangos cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn erbyn 7 dimensiwn y model Sefydliad sy'n Dysgu.</p>	Rhys H Hughes	Parhaus	Craidd	<p>Mae GwE yn parhau i weithio gyda'r OECD ar ddatblygu'r Consortia a'r AauLI fel sefydliadau sy'n dysgu. Rhennir unrhyw beth a ddsygir o'r gwaith hwn gyda rhanbarthau eraill, ac yn rhyngwladol, gan ein bod yn ymdrechu i ddatblygu ymhellach sefydliad bywiog ac iach.</p> <p>Mae ysgolion Dysgu Proffesiynol wedi bod yn gweithio ar ddatblygu amrywiaeth o astudiaethau peilot. Mae hyn yn cynnwys gwaith gyda'r OECD ar 7 dimensiwn yr Ysgol fel Sefydliad Dysgu, y cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer Dysgu Digidol a hefyd ar dreialu'r Safonau Addysgu Proffesiynol.</p> <p>Mae GwE yn parhau i weithio gydag ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ac yn rhannu profiadau o cydweithio ar ddatblygu'r Safonau Addysgu Proffesiynol newydd a'r Safonau Arweinyddiaeth newydd.</p> <p>Mae holl staff GwE wedi derbyn hyfforddiant cychwynnol ar godi ymwybyddiaeth o ysgolion fel sefydliadau dysgu. Mae pob un o'r staff wedi derbyn cyflwyniad arfer da gan y rhai sy'n llwyddo yn y gynhadledd YCG genedlaethol.</p> <p>50 o ysgolion wedi'u henwi fel YSD ac maent bellach yn 'hyrwyddwyr' ar gyfer uwchsgilio pob ysgol yng Ngogledd Cymru. YCG sydd yn arwain ar hyn ar gyfer GwE wedi derbyn astudiaethau achos gan dros 40 o ysgolion a fydd yn cael eu coladu i enghreifftio arfer da i'r YCG.</p>	Ar drac / On track	<p>Mae ymwybyddiaeth dda gan YCG. Mae'r ymwybyddiaeth o ysgolion yn datblygu'n dda, gydag ysgolion YSD y rhanbarth yn dangos arfer dda. Bydd canllawiau ar gyfer YCG yn parhau.</p>	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track
	<p>Parhau i ddatblygu'r berthynas waith i ddatblygu cyfleoedd am ymchwil gweithredol i ysgolion ar draws y rhanbarth.</p>	<p>Cefnogi gwerthuso ymyriadau sydd eisoes yn bodoli a hwyluso ymchwil parhaus sydd wedi'i hanelu at wella safonau a chanlyniadau lles ddisgyblion y presennol a'r dyfodol.</p>	Rhys H Hughes	Parhaus	M21 (Ymchwil a Gwerthusiad ar y cyd)	<p>Mae GwE yn parhau i ddatblygu'r berthynas waith i ddatblygu cyfleoedd am ymchwil gweithredol i ysgolion ar draws y rhanbarth.</p> <p>Mae "Sefydliad cydweithredol ar gyfer Ymchwil, tystiolaeth ac effaith (CIEREI) " rhwng GwE a Phrifysgol Bangor yn golygu bod dau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd i edrych ar sefydlu systemau gwerthuso effeithiol yn ein sefydliad. Mae'r cydweithio'n golygu edrych ar ddatblygu ymchwil weithredol o ran elfennau lles, a hefyd ymchwilio i elfennau effeithiol o arweinyddiaeth.</p> <p>Mae Prifysgol Bangor a GwE hefyd yn gweithio'n effeithiol ar hyrwyddo strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn gwella canlyniadau, er enghraifft, prosiect NorthWORTS-SP gydag Ysgol seicoleg ac addysg Prifysgol Bangor.</p>	Ar drac / On track	<p>Mae GwE wedi cydweithio'n agos â CIEREI i roi cymorth effeithiol ar ddatblygu ymarfer ymchwil ar gyfer ystod o ysgolion ac ymgynghorwyr penodol ar draws y rhanbarth. Mae'r cydweithio wedi mapio ymchwil a dulliau a thystiolaeth yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr wedi defnyddio'r 'map' hwn i gyfoethogi eu hymagweddau at lythrennedd ar draws y cwricwlwm, pynciau STEM, gwella adborth a chynnyddu lefel yr her mewn gwersi.</p>	Ar drac / On track	Gwariant ar drac / Expenditure on track